YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG: CRAFFU AR GYLLIDEB DDRAFFT LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER 2018-19

Fe wnaeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar ddau achlysur ym mis Tachwedd 2017. Yn dilyn y sesiynau hynny, mae'r pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cwblhau adroddiad sy'n cynnwys 21 o argymhellion. Y papur hwn yw ymateb ffurfiol y Llywodraeth i'r argymhellion hynny.

Blaenoriaethau ac asesiadau o effaith

Asesiadau effaith

Argymhelliad 1 (tudalen 5)

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant ar ei Chyllideb Ddrafft fel mater o drefn. Nid oes dim i atal Gweinidogion Cymru rhag defnyddio Asesiad o'r fath i lywio asesiad integredig ehangach o effaith. Rydym yn poeni heb Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant y gallai adnoddau, i gefnogi hawliau plant a phobl ifanc, ar y gorau fod yn anodd eu nodi. Ar y gwaethaf, gallai diffyg Asesiad arwain at Lywodraeth Cymru yn rhoi sylw annigonol i hawliau plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau ariannol pwysig.

Ymateb - Gwrthod

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y dylid cynnal asesiadau effaith manwl, e.e. Asesiad Effaith Amgylcheddol neu Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant, fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi. Bydd y rhain yn llywio penderfyniadau cyllideb parhaus ac mae Gweinidogion unigol yn gyfrifol am gwblhau'r asesiad effaith perthnasol lle bo angen er mwyn llywio'r asesiad effaith ehangach o'r gyllideb, a gwaith craffu pellach. Mae'r dull hwn yn golygu bod Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant yn cael eu cwblhau'n fwy cynhwysfawr ar lefel rhaglen a pholisi, lle mae'n briodol, yn hytrach nag asesiad cyffredinol o'r gyllideb ddrafft. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i gyhoeddi asesiadau effaith integredig ochr yn ochr â chyhoeddi'r gyllideb ddrafft.

Goblygiadau Ariannol - Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Addysg

Cyflwyno gwybodaeth: y llinell sylfaen ddiwygiedig

Argymhelliad 2 (tudalen 7)

Mewn cylchoedd pennu'r gyllideb yn y dyfodol, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau'r canlynol:

- **dim ond pan fo cyllid, a diben y cyllid hwnnw, wedi'i drosglwyddo i MEG arall, neu os oedd y gwariant yn wirioneddol untro, annodweddiadol ac unigryw i'r flwyddyn honno, y dylai cyllid gael ei dynnu o'r gyllideb sylfaenol at ddibenion cymharu. Er mwyn sicrhau cymariaethau cymharol o un flwyddyn i'r llall, ni ddylai Llywodraeth Cymru dynnu dyraniadau lle byddant yn cael eu hailadrodd y flwyddyn ganlynol**;
- **bod mwy o dryloywder ynghylch y rhesymau pam mae Llywodraeth Cymru wedi tynnu gwariant penodol o linellau sylfaen at ddibenion cymharol er mwyn osgoi'r potensial o roi argraffiadau camarweiniol ar y newidiadau gwirioneddol mewn cyllidebau.**

Ymateb - Derbyn o ran egwyddor

Cyflwynir y gyllideb mewn modd sy'n dryloyw ac sy'n caniatáu cymhariaeth ystyrlon.

Mae cytundebau ar y gyllideb gyda phleidiau eraill yn gytundebau am gyfnod cyfyngedig yn unig, felly os na chytunir ar gyllid rheolaidd caiff ei ddileu o'r waelodlin. Nid yw hyn yn atal elfennau tebyg rhag cael eu cynnwys mewn cytundebau yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

Argymhelliad 21 (tudalen 28)

Rydym yn deall y sefyllfa heriol sy'n wynebu cyllid cyhoeddus a'r pwysau parhaus ar gyllid gwasanaethau lleol, fodd bynnag, ar gyfer cylchoedd pennu cyllideb yn y dyfodol, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- **bod yn fwy pendant ynghylch y newidiadau gwirioneddol mewn cyllid a ddarperir ar gyfer ysgolion yn ei phrif gyhoeddiadau;**

Derbyn o ran egwyddor

Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau ar y rheng flaen a'r rhai sydd bwysicaf i'n cymunedau. Drwy'r Gyllideb Ddrafft hon a dull gweithredu llywodraeth gyfan, rydym wedi blaenoriaethu cyllid drwy'r Setliad Llywodraeth Leol. Mae hyn yn helpu Awdurdodau Lleol i reoli'r heriau sy'n codi yn sgi cyni a sicrhau darpariaeth gwasanaethau allweddol ysgolion a gofal cymdeithasol.

Awdurdodau Lleol yng Nghymru sy'n gyfrifol am gyllid ysgolion fel y nodir yn y gyfraith. Nid yw'r Setliad Grant Cynnal Refeniw wedi'i neilltuo ac o ganlyniad nid targedau yw'r blociau Asesu Gwariant Safonol o fewn y Setliad. Ar y sail hon nid yw bob amser yn bosibl cyflwyno newidiadau i gyllid yn unol â'r hyn a ofynnir gan y Pwyllgor. Mae awdurdodau lleol yn pennu eu cyllidebau ar gyfer ysgolion yn dilyn y Gyllideb.

- **gweithio'n agos gyda llywodraeth leol i sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn gweithredu'r diogelwch arfaethedig ar gyfer cyllidebau ysgolion gan nad yw'r Cyfanswm Cyllid Allanol yn cael ei neilltuo ac felly nad oes sicrwydd y bydd unrhyw ddiogelwch ar gyfer cyllidebau ysgolion yn y setliad llywodraeth leol yn cyrraedd y rheng flaen mewn ysgolion.**

Derbyn

Mae gan Lywodraeth Cymru berthynas waith dda gyda Llywodraeth Leol yng Nghymru yn gyffredinol ac o fewn y byd addysg. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â swyddogion Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a byddant yn parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Leol yn gallu cyflawni yn erbyn ein cyd-flaenoriaethau, gan gynnwys darparu gwasanaethau rheng flaen mewn ysgolion

Mewn ateb i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, mae Arweinydd CLlLC wedi cadarnhau bod addysg yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Leol yng Nghymru ac yn rhoi sicrwydd y bydd Llywodraeth Leol yn parhau i roi blaenoriaeth i ddarpariaeth ysgolion rheng flaen. Nodir bod gwariant cyllidebol yr Awdurdod Lleol ar ysgolion wedi cynyddu eleni [2017-18] o £2.123 biliwn i £2.142 biliwn.

Gallaf sicrhau'r Pwyllgor y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Leol i ddylanwadu ar ein cyd-flaenoriaethau ar gyfer addysg ac ysgolion a'u cefnogi.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Codi safonau mewn ysgolion

Argymhelliad 4 (tudalen 10)

Er mwyn sicrhau nad yw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Codi Safonau mewn Ysgolion yn dod yn llinell gyllideb 'amrywiol', rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- **nodi'n glir sut y mae'n targedu'r £25 miliwn yn strategol yn 2018-19 a'r £100 miliwn ar draws y Pumed Cynulliad**
- **pennu targedau clir sy'n rhoi manylion am yr hyn y mae'n gobeithio ei gyflawni o'r buddsoddiad hwn, gydag amserlenni yr un mor glir.**

Derbyn o ran egwyddor

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi £100 miliwn dros dymor y Cynulliad hwn i godi safonau mewn ysgolion wedi'i alinio â'n blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a amlinellir yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl.

Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi ac yn gwella ystod o gamau gweithredu i gyflwyno system ysgolion well i Gymru gyda chwricwlwm a threfniadau asesu gweddnewidiol wrth ei gwraidd.

Ymysg nodweddion allweddol ein dyheadau ar gyfer ein system ysgolion yng Nghymru mae arweinyddiaeth gref, ffocws cadarn ar ddysgu proffesiynol a phroffesiwn addysgu o ansawdd uchel sy'n gweithio ar y cyd mewn system hunanwella sy'n ymrwymedig i degwch a rhagoriaeth ac wedi'i chefnogi gan drefniadau atebolrwydd cadarn.

Disgwylir i fwy na hanner cyfanswm y buddsoddiad gefnogi ein ffocws ar wella addysgu a dysgu, gan gydnabod mai ein hathrawon yw ein hadnodd mwyaf gwerthfawr a'u bod yn ganolog i godi safonau.

Mae ein cynllun gweithredu ar gyfer Addysg yn seiliedig ar adolygiad ac argymhellion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ynghylch ein dull gweithredu. Mae wedi dweud yn glir y dylem barhau i ddiwygio, gan gydnabod ein cynnydd a'r ymrwymiad ar bob lefel i wella. Mae ein cyllideb wedi'i halinio i gyflawni Cenhadaeth Ein Cenedl ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynhyrchu cerdyn adrodd blynyddol er mwyn dangos cynnydd.

Rwy'n fodlon rhannu gwybodaeth bellach am sut y bydd y gyllideb yn cefnogi ein blaenoriaethau dros y tymor maes o law ond yn cydnabod yr angen i gadw hyblygrwydd o ran sut mae'r gyllideb yn cael ei defnyddio yn y dyfodol wrth inni barhau i adolygu cynnydd, gan nodi anghenion a chefnogi camau i godi safonau ar gyfer ein holl ddysgwyr ac athrawon.

Yn dilyn lansio Cenhadaeth Ein Cenedl, disgwyliwn symud tuag at ddull sy'n canolbwyntio mwy ar system er mwyn dangos tystiolaeth o ganlyniadau. Mae'r buddsoddiad o £100 miliwn wedi'i dargedu yn ôl ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac rydym yn disgwyl i'n partneriaid cyflawni, Awdurdodau Lleol, consortia ac

ysgolion, gefnogi'r broses o gyflawni Cenhadaeth Ein Cenedl ac adlewyrchu ein blaenoriaethau yn eu cynlluniau. Gan adeiladu ar waith blaenorol i resymoli ein cyllid grant a symud i gyllid sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, rwy'n disgwyl symud yn gyflym tuag at ddull yn seiliedig ar system ar gyfer monitro'r gwaith o gyflawni Cenhadaeth Ein Cenedl. Disgwylir i hyn gynnwys dull fframwaith canlyniadau addysg, y bydd y buddsoddiad o £100 miliwn yn cael ei gynnwys ynddo.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Maint dosbarthiadau babanod

Argymhelliad 5 (tudalen 11)

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fod yn rhagweithiol iawn wrth nodi a thargedu awdurdodau lleol ac ysgolion a fyddai'n elwa fwyaf o'r ymyriad er mwyn blaenoriaethu cyllid a sicrhau cymaint o werth am arian â phosibl. Byddem yn croesawu rhagor o fanylion am yr achosion busnes a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol, gan gynnwys faint o ysgolion a dosbarthiadau fydd yn elwa o'r arian hwn.

Ymateb - Derbyn

Mae'r cyllid yn cael ei dargedu at y meysydd ble mae ymchwil rhyngwladol a thystiolaeth yn dweud wrthym y bydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf; sef ein disgyblion ieuengaf yn enwedig y rhai o gefndiroedd tlotach neu'r rhai ag anghenion penodol.

Mae meini prawf llym ar gyfer y cyllid; dosbarthiadau o 29 o blant neu fwy mewn ysgolion, lle mae o leiaf un o'r canlynol, neu gyfuniad ohonynt, yn berthnasol:

- Cyfran sylweddol o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- Deilliannau sy'n is na'r cyfartaledd a lle y bernir bod statws ysgol yn goch neu'n felyn
- Cyfran sylweddol o blant ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion addysgol ychwanegol
- Cyfran sylweddol o blant lle nad Cymraeg/Saesneg yw eu hiaith gyntaf

Caiff y grant ei weinyddu gan awdurdodau lleol ar ran Llywodraeth Cymru ac mae'n cael ei ddosbarthu ar sail fformiwla sy'n ystyried yr elfen Asesiad ar Sail Dangosyddion Gwariant Addysgu mewn Ysgolion Cynradd a Gwasanaethau Eraill yr Asesiad o Wariant Safonol a nifer y dosbarthiadau o 29 a throsodd ym mhob ardal awdurdod lleol.

Mae elfen refeniw'r grant yn amodol ar dderbyn a chymeradwyo achosion busnes awdurdodau lleol sy'n nodi eu cynigion, gan ddangos tystiolaeth o sut y maent yn bodloni'r meini prawf ac yn cynnwys ystod o wybodaeth ategol gan gynnwys manylion am y gefnogaeth bresennol a roddir i'r ysgolion dan sylw, ffocws presennol Grant Datblygu Disgyblion a Grant Gwella Addysg, y deilliannau disgwyliedig a'r cynlluniau i sicrhau cynaliadwyedd. Ystyrir gwerth am arian fel rhan o hyn. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud cais am elfen gyfalaf y grant.

Mae swyddogion wrthi'n asesu achosion busnes awdurdodau lleol yn erbyn yr holl ofynion uchod. Bydd y rhain angen cymeradwyaeth weinidogol derfynol.

Ar ôl i'r broses hon gael ei chwblhau byddwn mewn sefyllfa i roi rhagor o fanylion i'r Pwyllgor ar y cynigion a nifer yr ysgolion, y disgyblion a'r dosbarthiadau a fydd yn elwa o'r cyllid.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Cyllideb llywodraethu ysgolion

Argymhelliad 6 (tudalen 12)

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu effaith unrhyw newidiadau i'r trefniadau cefnogi ar gyfer llywodraethwyr yng Nghymru.

Ymateb - Gwrthod

Mae llywodraethwyr ysgol yn chwarae rhan hanfodol wrth redeg ein hysgolion ac mae gwasanaethau ar gael i lywodraethwyr ysgol ledled Cymru, a gynigir gan Awdurdodau Lleol a chonsortia. Mae hyn yn cynnwys mynediad i dimau cymorth llywodraethwyr, gwasanaethau clercio, gwybodaeth benodol, canllawiau a mwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gwasanaethau o ansawdd uchel i lywodraethwyr ysgol, gan gynnwys drwy weithio i gryfhau'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol a rôl consortia ac wrth ddatblygu rôl yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysg.

Dim ond ar ôl ystyriaeth ddifrifol a gofalus y gwneir penderfyniad i leihau cyllid ar gyfer gwasanaethau. Er bod y gyllideb wedi bod yn gymharol fach ac y rhagwelwyd y byddai'n lleihau, mae'n briodol ein bod yn cydnabod mai sefydliad bach yw Llywodraethwyr Cymru, gyda rhyw 3 aelod o staff a chapasiti cyfyngedig i gael mwy o effaith ar ein cenhadaeth genedlaethol. Mae'r lefelau cyrhaeddiad yn isel - amcangyfrifir y caiff 2,000 o blith y 21,000 o lywodraethwyr yng Nghymru eu gwasanaethau. Mae risg o ddyblygu rhwng y cymorth a gynigir gan Lywodraethwyr Cymru, Awdurdodau Lleol a chonsortia. Mae'n r haid bod rhoi'r gorau i ddarparu cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn ar y pwynt hwn yng nghyd-destun blaenoriaethu cyllid ysgolion rheng flaen yn ystyriaeth resymol.

Bu swyddogion yn cyfathrebu'n rheolaidd â Llywodraethwyr Cymru ac maent wedi annog y sefydliad i fynd ar drywydd ffynonellau cyllid amgen ond nid ydynt wedi gwneud hynny hyd yma. Byddwn yn parhau i weithio gyda hwy yn ystod y cyfnod nesaf.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Grant Gwella Addysg

Argymhelliad 7 (tudalen 13)

Ar sail y dystiolaeth a ddarperir yn ein Grant Gwella Addysg: Adroddiad ar Blant Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Phlant Lleiafrifoedd Ethnig (Chwefror 2017), rydym yn annog Ysgrifennydd y Cabinet i gadw arian i gefnogi dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a dysgwyr Lleiafrifoedd Ethnig fel rhan o'r Grant Gwella Addysg.

Ymateb - Gwrthod

Roeddwn yn croesawu ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'r Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion a'i adroddiad dilynol, yn benodol yr elfen o gefnogaeth i Gyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig a dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Darparwyd tystiolaeth eang a nodaf fod safbwyntiau amrywiol ar sawl mater a bod gwahaniaeth barn weithiau, er enghraifft gyda CLlLC yn galw am gyllid cynaliadwy drwy'r Setliad, rhai Awdurdodau Lleol yn gweithio'n gyfforddus drwy wasanaeth rhanbarthol, yn enwedig yn y De-ddwyrain, rhai yn dirprwyo elfen fawr o'r gefnogaeth i ysgolion, er enghraifft yng Nghaerdydd ac eraill yn galw am fwy o gyllid neu am glustnodi cymorth grant.

Rwy'n ymwybodol nad oedd penderfyniad cadarn wedi'i wneud pan ddeuthum i sesiwn y Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft a bod fy swyddogion wedi bod yn cydweithio'n agos â CLlLC ar y manylion.

Ar gyfer 2018-19 mae nifer o ystyriaethau angen sylw o hyd, ac fe fydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio'n agos â CLlLC ar y materion hyn. Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor eto yn y man.

Goblygiadau Ariannol – Yn ddibynnol ar drafodaethau sy'n mynd rhagddynt gyda CLlLC ac ystyriaeth lawn o unrhyw faterion sy'n codi, byddai angen i unrhyw gostau ychwanegol a gytunir gan Lywodraeth Cymru gael eu tynnu o gyllideb Llywodraeth Cymru.

Grant Datblygu Disgyblion

Argymhelliad 8 (tudalen 14)

Er mwyn llywio ein hymchwiliad arfaethedig i gyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol, gofynnwn i Lywodraeth Cymru rannu copi o adroddiad yr adolygiad a'r camau sy'n deillio o hynny.

Ymateb - Derbyn - dim goblygiadau ariannol

Bydd y Pwyllgor yn gwybod bod y trydydd gwerthusiad o'r Grant Datblygu Disgyblion wedi'i gyhoeddi ar 13 Rhagfyr a gwneuthum ddatganiad ysgrifenedig i gyd-fynd ag ef.

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn gadarnhaol iawn ac yn dangos ein bod yn gwneud cynnydd pellach wrth nodi a mynd i'r afael ag anghenion dysgwyr dan anfantais. Mae'r adroddiad yn nodi bod nifer o effeithiau cadarnhaol ac addawol dros amser. Mae ysgolion o'r farn bod y cyllid Grant Datblygu Disgyblion yn werthfawr iawn ac mae llawer o'r ysgolion yn credu ei fod yn 'amhrisiadwy'. Mae llawer o ysgolion hefyd wedi cydnabod bod y Grant Datblygu Disgyblion, dros amser, wedi eu helpu i ganolbwyntio ar fynd i'r afael ag anfantais ar draws yr ysgol a chodi proffil hynny, gan newid agweddau a diwylliant. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'm hymrwymiad cadarn i'r maes gwaith hwn a byddwn yn parhau i ymchwilio i ffyrdd arloesol ac effeithiol o gefnogi ysgolion - a'r gymuned ehangach - i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle gorau posibl i gyflawni eu llawn botensial.

O safbwynt yr adolygiad y cyfeiriais ato yn ystod sesiwn y Pwyllgor, gofynnais i swyddogion gynnal dadansoddiad ystadegol cychwynnol o ddata perfformiad Cyfnod Allweddol 4, gan gynnwys asesu effeithiau'r newidiadau i'r mesurau perfformiad ar ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Rwy'n fodlon rhannu hyn gyda'r Pwyllgor pan fydd ar gael.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Addysg Bellach

Argymhelliad 9 (tudalen 15)

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r strategaeth i gynyddu cyfranogiad mewn addysg oedolion yn y dyfodol agos.

Ymateb - Gwrthod - Dim goblygiadau ariannol

Cyhoeddodd y weinyddiaeth ddiwethaf ddatganiad polisi ar ddysgu oedolion - Dysgu Oedolion yng Nghymru - ym mis Gorffennaf 2014. Roedd y datganiad hwn yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru ac yn canolbwyntio ar ddarparu sgiliau hanfodol, llythrennedd digidol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill.

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi i ymgynghori ar strwythur darparu a chyllido dysgu oedolion yng Nghymru yn y dyfodol. Bwriad hyn yw sicrhau bod y cyllid ar gyfer dysgu oedolion yn cael ei ddosbarthu'n fwy cyfartal er mwyn ceisio cynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan mewn dysgu oedolion yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Addysg Uwch a chymorth i fyfyrwyr

Argymhelliad 10 (tudalen 16)

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o fanylion am ffynhonnell yr arian hwn a'r gwaith cynllunio ariannol sy'n sail i'r penderfyniad hwn fel mater o flaenoriaeth.

Ymateb - Derbyn

Mae'r gyllideb derfynol yn cadarnhau y bydd £5 miliwn yn cael ei ddyrannu i'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch yn y blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20 i helpu i liniaru effaith ariannol y penderfyniad i gynnal uchafswm lefelau ffioedd dysgu ar £9,000. Darparwyd y cyllid fel rhan o drafodaethau'r Gyllideb derfynol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn dilyn fy natganiad ym mis Hydref. Roedd y datganiad hwnnw'n cydnabod y gallai hyn achosi rhai heriau tymor byr yn ein sector prifysgolion ac y bydd cynlluniau ariannol wedi cynnwys incwm ychwanegol o ffioedd dysgu uwch.

Anfonais lythyr at y pwyllgor ar 30 Hydref yn amlinellu'r cyfrifiadau ystadegol a oedd yn sail i'r dyraniad. Rwy'n awyddus i bwysleisio bod y cyfrifiadau hyn wedi'u paratoi gan dîm ystadegol sy'n rhan o system rheoli ariannol ehangach sydd wedi'i sefydlu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu system sicrwydd ac atebolrwydd effeithiol ac effeithlon i reoli'r system benthyciadau a grantiau myfyrwyr yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

Cyflwyno gwybodaeth

Argymhelliad 11 (tudalen 19)

- **Ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i fonitro'n agos gynhyrchiad y Byrddau Iechyd o'r Asesiadau disgwyliedig o Effaith ar Hawliau Plant a'u dwyn i gyfrif am eu darparu.**

    - **Ar gyfer blynyddoedd ariannol yn y dyfodol, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i:**
        - **gynnal ei Hasesiadau o Effaith ar Hawliau Plant ei hun mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft (gweler argymhelliad 1);**
        - **cyflwyno'n gliriach yn nogfennaeth y Gyllideb Ddrafft sut y mae adnoddau ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael eu dyrannu.**

- **Drwy fabwysiadu dull mwy integredig o'i strategaeth yn y dyfodol, rydym yn annog Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod adnoddau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno'n glir fel y gallwn fonitro eu fforddiadwyedd, i ba raddau y maent yn cael eu blaenoriaethu, a'u gwerth am arian**.

Ymateb - Derbyn o ran egwyddor

Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd sicrhau eu bod yn ymgymryd ag Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant fel rhan o'u proses cyllidebu a chynllunio. Mae'r gofyniad hwn wedi'i ymgorffori yn y Canllaw Cynllunio Tymor Canolig Integredig, a gyhoeddwyd ar gyfer 2018-19 ar 11 Hydref, a Dyraniad Refeniw Byrddau Iechyd Lleol, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr. Fel rhan o'r adolygiad o gynlluniau byrddau iechyd 2018-19, bydd Llywodraeth Cymru yn monitro cydymffurfiaeth â'r gofyniad hwn.

Fel yr amlinellir yn ein papur tystiolaeth, mae darpariaeth gwasanaeth y GIG mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, cyflyrau meddygol plant ac iechyd cyffredinol plant yn cael ei ariannu'n bennaf drwy'r dyraniadau refeniw blynyddol i fyrddau iechyd. O ystyried natur gyffredinol y gwasanaethau iechyd, ni chaiff gwariant a gynllunnir ei nodi'n rheolaidd yn ôl categori oedran. Fodd bynnag, ar gyfer cyllidebau'r dyfodol byddwn yn ystyried sut y gallwn gyflwyno gwybodaeth well ar sut mae ein cynlluniau gwariant yn effeithio ar wasanaethau i blant a phobl ifanc.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Argymhelliad 12 (tudalen 20)

Rydym yn croesawu'r cyllid rheolaidd ar gyfer CAMHS a gyhoeddwyd yn 2016-17, a'r manylion am y meysydd penodol y bwriedir eu hariannu. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi eglurder ar y canlynol:

- **cyfran y cyllid CAMHS ychwanegol rheolaidd a ddyrennir i bob Bwrdd Iechyd yn 2018-19 a 2019-20;**
- **disgwyliadau Llywodraeth Cymru ynghylch meysydd CAMHS y dylid gwario'r cyllid hwnnw arnynt;**
- **y canlyniadau disgwyliedig ar gyfer y gwariant hwnnw a'r dulliau a ddefnyddir i'w monitro.**

Ymateb - Derbyn

Ym mis Mai 2015, cytunodd Llywodraeth Cymru i roi £7.65 miliwn ychwanegol y flwyddyn tuag at wella gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Yn 2016 cyhoeddwyd hefyd fuddsoddiad ychwanegol o £318,000, gan ddod â chyfanswm y buddsoddiad yn CAMHS i bron £8 miliwn y flwyddyn) i ariannu gwaith gyda'r trydydd sector i gyflogi gweithwyr cymorth ar gyfer pobl ifanc sy'n dioddef o'r salwch meddwl mwyaf difrifol. Gan weithio gyda thimau Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis, bydd y gweithwyr yn gweithio gyda phobl ifanc i hwyluso eu hymgysylltiad ag addysg, gwaith a gweithgareddau cymdeithasol. Ni fydd swm yr arian yn lleihau ar gyfer 18-19 na 19-20.

Rhannwyd yr arian fel a ganlyn:

- £2.7 miliwn i ddatblygu timau ymyrryd mewn argyfwng
- £2 filiwn i ddatblygu gwasanaethau niwroddatblygiadol newydd
- £1.1 filiwn i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer therapïau seicolegol
- £800,000 i wella cymorth iechyd meddwl sylfaenol i blant
- £800,000 i ddatblygu ymyrraeth gynnar mewn timau seicosis a £318,000 arall ar gyfer gweithwyr cymorth y trydydd sector
- £250,000 i wella'r ddarpariaeth ar gyfer y rhai yn y system cyfiawnder ieuenctid

Dyrannwyd yr arian ychwanegol hwn i Fyrddau Iechyd yn seiliedig ar nifer y boblogaeth dan 18 oed ar sail cyfrifiad 2011. Mae hwn wedi'i rannu fel a ganlyn;
Cafodd Abertawe Bro Morgannwg £1,221,946 (£1.222 miliwn). Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Gwasanaethau niwroddatblygiadol £0.330m
- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol £0.132m
- Therapïau Seicolegol £0.182m
- Argyfwng / a136 £0.446m
- Seicosis Ymyrraeth Gynnar £0.132m

Cafodd Aneurin Bevan £1,451,912 (£1.452 miliwn). Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Gwasanaethau niwroddatblygiadol £0.393m
- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol £0.157m
- Therapïau Seicolegol £0.216m
- Argyfwng / a136 £0.530m
- Seicosis Ymyrraeth Gynnar £0.157m

Betsi Cadwaladr £1,646,665 (£1.647 miliwn). Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Gwasanaethau niwroddatblygiadol £0.445m
- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol £0.178m
- Therapïau Seicolegol £0.245m
- Argyfwng / a136 £0.600m
- Seicosis Ymyrraeth Gynnar £0.178m

Cafodd Caerdydd a'r Fro £1,176,625 (£1.177 miliwn). Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Gwasanaethau niwroddatblygiadol £0.318m
- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol £0.127m
- Therapïau Seicolegol £0.175m
- Argyfwng / a136 £0.429m
- Seicosis Ymyrraeth Gynnar £0.127m

Cafodd Cwm Taf £984,054. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Gwasanaethau niwroddatblygiadol £0.198m
- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleo £0.079m
- Therapïau Seicolegol £0.109m
- Argyfwng / a136 £0.268m
- Seicosis Ymyrraeth Gynnar £0.080m
- CAMHS Timau Troseddau Ieuenctid – Swyddi nyrsio £0.250m

Cafodd Hywel Dda £873,096. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Gwasanaethau niwroddatblygiadol £0.236m
- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol £0.094m
- Therapïau Seicolegol £0.130m
- Argyfwng / a136 £0.319m
- Seicosis Ymyrraeth Gynnar £0.094m

Cafodd Powys £295,702. Mae'r manylion fel a ganlyn:

- Gwasanaethau niwroddatblygiadol £0.080m
- Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol £0.032m
- Therapïau Seicolegol £0.044m
- Argyfwng / a136 £0.108m
- Seicosis Ymyrraeth Gynnar £0.032m

Gweithwyr Cymorth Pontio (pobl ifanc o dan 18 oed)

	2017-18 ymlaen
Abertawe Bro-Morgannwg	£52,755
Aneurin Bevan	£62,284
Betsi Cadwaladr	£70,790
Caerdydd a'r Fro	£50,949
Cwm Taf	£31,556
Hywel Dda	£37,519
Powys	£12,646
Cyfanswm	£318,500

Mae'r cynigion am arian o'r gronfa £7.65 miliwn ar gyfer gwariant penodol ar recriwtio yn cael eu monitro'n rheolaidd. Rydym hefyd yn edrych yn rheolaidd ar y cynnydd o ran sefydlu'r timau gofal argyfwng a Niwroddatblygiadol newydd.

Rydym wedi sefydlu Grŵp Sicrwydd Cyflawni Plant a Phobl Ifanc ac mae ei aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr o CAMHS, swyddfa'r Comisiynwyr Plant, sefydliadau'r 3ydd sector, y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru. Mae'r grŵp yn cwrdd pob chwarter a dyma lle y ceir cyfle i graffu ar waith CAMHS. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cwrdd ag is-gadeiryddion y byrddau iechyd bob chwarter, lle mae CAMHS yn eitem sefydlog ar yr agenda.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Plant anabl

Argymhelliad 13 (tudalen 21)

Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i fonitro cymorth i blant anabl yn agos a sicrhau bod penderfyniadau ynghylch adnoddau yn rhoi blaenoriaeth iddynt.

Ymateb - Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod anghenion plant anabl yn cael ystyriaeth lawn mewn penderfyniadau cyllido ac rydym yn monitro effaith y gefnogaeth a ddarperir drwy grantiau a llwybrau cyllido eraill i sicrhau bod y canlyniadau y cytunwyd arnynt yn cael eu cyflawni.

Mae Cynllun Grant Trydydd Sector y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ariannu mudiadau'r trydydd sector i ddarparu cymorth i blant anabl a'u teuluoedd a'u gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys £1.5 miliwn gan Gronfa'r Teulu dros dair blynedd (ynghyd â £400,000 ychwanegol ar gyfer 2016-17) yn ogystal ag Anabledd Dysgu Cymru, Gofalwyr Cymru a Fforwm Cymru Gyfan.

Daw'r cynllun grant presennol i ben ym mis Mawrth 2019 ac mae trefniadau ar gyfer cynllun olynol yn cael eu datblygu. Wrth ddatblygu'r cynllun hwnnw, byddwn yn pennu meini prawf ar gyfer cyllid grant sy'n golygu bod modd dyrannu'r arian sydd ar gael ar draws meysydd blaenoriaeth gan gynnwys plant anabl.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Gwasanaethau newyddenedigol

Argymhelliad 14 (tudalen 22)

Dylai safonau sbarduno'r dyraniad o adnoddau - gan gynnwys cyllidebau - ac rydym yn annog Llywodraeth Cymru i gyhoeddi'r argraffiad diweddaraf fel mater o frys er mwyn gallu darparu gwasanaethau newyddenedigol cynaliadwy, o ansawdd uchel gyda digon o staff ledled Cymru.

Ymateb - Derbyn o ran egwyddor

Bydd y Safonau Newyddenedigol diwygiedig yn defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf a'r canllawiau arfer gorau i'w gwneud yn glinigol ac yn weithredol berthnasol. Bydd Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru yn cefnogi ac yn monitro gweithrediad y safonau ac yn darparu cyngor amserol ar sail tystiolaeth i'r Byrddau Iechyd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau newyddenedigol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Fyrddau Iechyd gydweithio, gyda Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru, i ddarparu gwasanaethau newyddenedigol priodol a diogel o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt.

O fis Ionawr 2018 ymlaen, bydd y trefniant llywodraethu ar gyfer Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru yn cael ei drosglwyddo o WHSSC i Gydweithrediaeth Iechyd GIG Cymru. Bydd Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru yn cael ei oruchwylio gan Fwrdd Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru a chaiff ei gadeirio, ar ran GIG Cymru, gan yr arweinydd penodedig ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol. Yna bydd Bwrdd Rhwydwaith Newyddenedigol Cymru yn atebol i GIG Cymru drwy Grŵp Gweithredol y Gydweithrediaeth, a fydd yn ei dro yn adrodd i'r Fforwm Arweinyddiaeth Gydweithredol.

Cytunodd Cydbwyllgor WHSSC ym mis Mawrth 2017 i gefnogi'r safonau mewn egwyddor a gofynnodd i'r Byrddau Iechyd gynnal asesiad sylfaenol yn erbyn y safonau diwygiedig. Mae'r Byrddau Iechyd wedi cynnal hunanasesiad a thrafodwyd yr adroddiad yng Nghydbwyllgor WHSSC ym mis Tachwedd. Oherwydd y newid mewn trefniadau llywodraethu o fis Ionawr 2018 ymlaen, penderfynodd Cydbwyllgor WHSSC y dylid cyflwyno'r safonau i Grŵp Gweithredol y Gydweithrediaeth i'w hystyried yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Ar ôl i'r safonau gael yr holl gymeradwyaethau angenrheidiol, byddant yn cael eu cyhoeddi gan y Rhwydwaith Newyddenedigol.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Nyrsys Ysgol

Argymhelliad 15 (tudalen 22)

Byddem yn croesawu rhagor o fanylion yng Nghyllidebau Drafft Llywodraeth Cymru ynghylch yr adnoddau a ddyrennir i ddarparu nyrsys ysgol, yn unol â'r fframwaith, ledled Cymru. Bydd hyn yn ein galluogi i fonitro fforddiadwyedd y gwasanaeth a'i werth am arian yn fwy effeithiol, ac i sicrhau ei fod yn derbyn y lefel briodol o flaenoriaeth mewn perthynas â meysydd gwasanaeth eraill.

Ymateb - Derbyn

Mae byrddau iechyd yn ariannu'r gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion o'u dyraniadau yn ôl disgresiwn. Mae'r fframwaith Gwasanaeth Nysrio mewn Ysgolion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai 2017 yn nodi sut y dylid darparu'r gwasanaethau hyn ynghyd â'r elfennau allweddol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol bod nyrs ysgol gofrestredig ar gael ar gyfer pob ysgol uwchradd brif ffrwd a'r clwstwr o ysgolion cynradd sy'n ei bwydo, gan nodi y dylai'r gwasanaeth gael ei ddarparu gan y GIG drwy gydol y flwyddyn. Dylid darparu'r gwasanaeth drwy ddull gofal iechyd darbodus sy'n defnyddio arbenigedd o'r gymysgedd sgiliau o fewn y timau nyrsys ysgol.

Mae Byrddau Iechyd eisoes wedi cyflawni sawl elfen o'r Fframwaith. Mae hyn yn cynnwys darparu nyrsys ysgol cofrestredig drwy gydol y flwyddyn, gyda nyrs wedi'i henwi wedi'i dyrannu i bob ysgol gyfun a'r clwstwr o ysgolion cynradd sy'n ei bwydo.

Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp monitro yn gynnar yn 2018 i ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol y gall byrddau iechyd eu defnyddio i roi sicrwydd o ran y gwasanaethau a ddarperir. Ar hyn o bryd mae fforwm arweinwyr nyrsys ysgol yn rhoi cyngor a sicrwydd i swyddogion Llywodraeth Cymru ac yn cydweithio i sicrhau bod y fframwaith newydd yn cael ei weithredu.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Chwaraeon a gweithgarwch corfforol

Argymhelliad 16 (tudalen 22)

Yn ychwanegol at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros chwaraeon i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon, byddem yn croesawu eglurhad o sut y bydd y ddau bortffolio yn cael eu halinio ar draws y llywodraeth i gyflawni'r amcan o gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc.

Ymateb - Derbyn

Bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd y polisïau ar draws iechyd y cyhoedd a chwaraeon yn cael eu halinio'n agos i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ledled Cymru. Rydym wedi gofyn i Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gydweithio i ddatblygu dull o gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys alinio'n fanwl â Cyfoeth Naturiol Cymru a bydd yn cynnwys sefydlu fframwaith canlyniadau newydd ar gyfer gweithgarwch corfforol, rhai cyd-fesurau perfformiad, camau gweithredu a dulliau ar gyfer gwerthuso effaith a gwerth am arian. Bydd y cynnydd cychwynnol yn cael ei adrodd yn ôl i'r Gweinidogion yn gynnar yn 2018. At hynny, mae Deddf Iechyd y Cyhoedd Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra, a bydd cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol a mynd i'r afael â ffyrdd o fyw eisteddog yn rhan bwysig ohoni. Y Prif Swyddog Meddygol sy'n arwain y gwaith hwn ac mae'r sector chwaraeon a'r sectorau iechyd yn ymwneud yn llawn â'r gwaith datblygu.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Cymunedau a Phlant

Y Cynnig Gofal Plant

Argymhelliad 17 (tudalen 25)

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu ymateb i'r adroddiad ar Gapasiti Gofal Plant yng Nghymru, sy'n rhoi manylion am y canlynol:

- **y rhagamcaniadau ar gyfer capasiti'r sector rhwng nawr a phryd y rhagwelir y cyflwynir y rhaglen ar gyfer Cymru gyfan;**
- **y camau gweithredu y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu cymryd i gynyddu'r capasiti hwnnw i gyflwyno'r rhaglen ar gyfer Cymru gyfan;**
- **y costau cyfalaf ac adnoddau a ragwelir sy'n gysylltiedig â chyrraedd y lefel angenrheidiol o gapasiti**

Ymateb - Derbyn o ran egwyddor

Bydd ymchwil bellach i gapasiti'r sector a'i allu i ehangu yn parhau rhwng nawr a'r adeg y disgwylir i'r rhaglen cynnig gofal plant gael ei chyflwyno'n llawn. Bydd gwerthusiad o'r ardaloedd gweithredu cynnar yn parhau drwy'r cyfnod cyflwyno fesul cam a bydd yn nodi unrhyw broblemau o ran capasiti ac unrhyw heriau a wynebir mewn ardaloedd ar hyd a lled y wlad.

Cynyddodd nifer y lleoedd gofal plant yng Nghymru o 76,000 yn 2012 i 84,000 yn 2017 sy'n dangos bod y sector gofal plant yn ehangu yng Nghymru. Cynhaliwyd arolwg gyda darparwyr gofal plant gan Alma Economics yn 2017 ar ran Llywodraeth Cymru (bydd yr adroddiad ymchwil llawn yn cael ei gyhoeddi ar 10 Ionawr 2018). Nododd canfyddiadau'r arolwg fod gan 60% o'r ymatebwyr leoedd i gymryd mwy o blant. Holwyd y darparwyr am eu gallu a'u parodrwydd i ehangu'r ddarpariaeth a gynigiwyd ganddynt. Ar sail yr ymatebion, mae Alma Economics yn amcangyfrif y gallai darparwyr presennol ddarparu hyd at 17,800 o leoedd newydd ar gyfer plant 3-4 oed ledled Cymru. Dylid nodi mai amcangyfrif dangosol yn unig yw hwn a bod ystod o gyfyngiadau'n gysylltiedig â rhagweld y capasiti posibl a dylid ei ddehongli yn unol â hynny oherwydd yr amrywiaeth o ffactorau anhysbys, gan gynnwys y gwasanaethau sydd eu hangen, cyfraddau cyllido, y cyllid cyfalaf sydd ar gael, nifer ddigonol o staff a materion yn ymwneud ag ardaloedd penodol.

Ar 15 Rhagfyr lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun 10 mlynedd ar gyfer gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar. Rydym eisiau datblygu gweithlu gofal plant a chwarae medrus iawn a fydd, dros amser, yn uchel ei barch fel proffesiwn ac yn yrfa y bydd pobl yn ei dewis. Rydym eisiau sicrhau bod y bobl iawn sydd â'r ymddygiad a'r sgiliau iawn yn cael eu denu i ddilyn gyrfa yn y sector gofal plant a'r sector blynyddoedd cynnar; ac rydym am i gymdeithas werthfawrogi rôl hanfodol y sector o ran cefnogi ein plant i ddysgu a datblygu.

Er mwyn gwireddu dyhead y cynllun rydym wedi canolbwyntio ar 3 thema allweddol:

- Denu recriwtiaid newydd o ansawdd uchel;
- Codi safonau a sgiliau; a
- Buddsoddi mewn gallu a galluogrwydd

Rydym yn cydnabod bod nifer o heriau i'r sector yn yr hinsawdd economaidd bresennol yn sgil cynnydd mewn costau megis y Cyflog Byw Cenedlaethol, pensiynau a chyfraddau busnes ac effaith y costau hyn ar allu'r sectorau i dyfu'n gynaliadwy. Er mwyn cefnogi'r sector, byddwn yn blaenoriaethu cymorth i gynorthwyo gyda'u twf busnes ac i ddatblygu sgiliau. Er bod y cynllun yn weledigaeth 10 mlynedd, byddwn yn canolbwyntio'n gyntaf ar y camau y byddwn yn eu cymryd yn nhymor y Cynulliad hwn.

Er enghraifft, rydym eisoes wedi ymrwymo £100,000 dros y 3 blynedd nesaf i gefnogi'r darparwyr hynny sy'n gweithio gydag awdurdodau lleol sy'n weithredwyr cynnar ac i'r rhai sy'n ceisio ehangu eu busnes neu ddechrau busnes newydd. Bydd y grant hwn o gymorth i gefnogi darparwyr gofal plant i gynyddu'r nifer o leoedd gofal plant sydd ar gael ledled Cymru.

Fel rhan o'n dull cefnogi busnes, byddwn, mewn partneriaeth â Busnes Cymru a Cwlwm, yn cefnogi'r sector drwy ddarparu cyngor ar sut i gael gwybodaeth am gynllunio ariannol, cynllunio busnes a gofynion rheoleiddio.

O fis Ebrill 2018 ymlaen, byddwn yn cynyddu'r rhyddhad ardrethi busnesau bach y gallwn ei gynnig i ddarparwyr gofal plant o £12,000 i £20,500. Rydym hefyd wedi ymrwymo i ymchwilio i'r ffordd orau o gefnogi'r sector yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried Adolygiad Barclay yr Alban ar ardrethi annomestig a gyhoeddwyd yn 2017.

Elfen allweddol o'n cynlluniau gweithredu cynnar fydd cyflwyno cyfres newydd o gymwysterau ar gyfer y sector ar draws lefelau 1-5. Mae'r cymwysterau hyn wrthi'n cael eu datblygu yn barod i'w haddysgu ym mis Medi 2019. Er mwyn cefnogi'r broses o gyflwyno'r cymwysterau byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru i godi proffil y sector ac i ddechrau mapio gallu a galluogrwydd y gweithlu wrth ddechrau gweithredu cynllun y gweithlu.

Gyda'i gilydd, bydd y camau hyn yn darparu buddsoddiad wedi'i dargedu yn y sector i gefnogi ei allu ac i adeiladu'r gallu angenrheidiol, ochr yn ochr â'r arian refeniw i gefnogi'r cynnig gofal plant sy'n cynyddu i £25 miliwn yn 2018-19, ac i £45 miliwn yn 2019-20, a £60 miliwn o gyfalaf hyd at ddiwedd tymor y Cynulliad hwn ar gyfer buddsoddi mewn lleoliadau gofal plant ochr yn ochr â rhaglen Ysgolion ac Addysg yr 21ain Ganrif.

Goblygiadau Ariannol - Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 18 (tudalen 25)

Rydym yn rhannu pryderon Comisiynydd Plant Cymru y bydd plant nad yw eu rhieni mewn gwaith yn disgyn ymhellach y tu ôl i'w cyfoedion os ydynt yn colli allan ar y ddarpariaeth hon. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i edrych yn fanwl ar ffocws y rhaglen, gan ddefnyddio'r cyfnod peilot i wneud y canlynol:

- **ystyried ehangu'r ddarpariaeth i gynnwys rhieni mewn addysg neu hyfforddiant;**
- **ystyried ail-ffocysu'r cynnig ar anghenion datblygu pob plentyn yn ofalus yn hytrach na statws cyflogaeth ei riant/rhieni;**
- **asesu'r rhyngberthynas rhwng y ddarpariaeth Gofal Plant newydd a darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg.**

Ymateb - Gwrthod

Mae cydnabyddiaeth gynyddol bod y mwyafrif o blant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yng Nghymru yn byw ar aelwyd lle mae o leiaf un person yn gweithio. Ceir tystiolaeth glir mai gwaith â chyflog da yw'r llwybr gorau allan o dlodi, a'r amddiffyniad mwyaf yn erbyn tlodi. Bydd y cynnig gofal plant yn helpu i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith drwy gefnogi rhieni i gael gwaith llawn amser a'i gwneud yn haws i rieni gymryd swydd a'i chadw. Yn benodol bydd yn helpu:

- menywod sy'n dymuno dychwelyd i'r gwaith sy'n dweud bod costau gofal plant yn rhwystr, sy'n eu hatal rhag dychwelyd i'r gwaith neu wneud newidiadau i'w cyflogaeth a fydd yn gweddu'n well i'w hamgylchiadau teuluol;

- teuluoedd sy'n gweithio ac sydd ar incwm isel neu'n byw mewn tlodi sy'n dweud na allant fforddio gofal plant. Bydd y cynnig yn helpu i gynyddu incwm gwario y rhai sydd eisoes yn gweithio drwy gael gwared ar rai o'u costau gofal plant a chaniatáu i rieni gael dewisiadau cyflogaeth, cynorthwyo pobl sy'n gweithio'n rhan amser i weithio mwy o oriau a chynorthwyo'r rhai sy'n ennill yr ail gyflog i gael gwaith;

- Plant o deuluoedd difreintiedig - mae ein cynnig gofal plant yn cefnogi'r gwaith o gyflawni dau o amcanion tlodi plant Llywodraeth Cymru:

    - *Defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i leihau nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd heb waith, gan fod plant sy'n byw ar aelwydydd heb waith yn arbennig mewn perygl o fyw mewn tlodi.*
    - *Mynd i'r afael â'r broblem gynyddol o dlodi mewn gwaith yng Nghymru drwy greu economi gref a marchnad lafur, sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi.*

Mae'r cynnig gofal plant yn un o gyfres o bolisïau - gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, PaCE a chyflwyno parthau plant - yr ydym yn eu dilyn yn ystod tymor y llywodraeth hon i gefnogi cymunedau ac i adeiladu gwydnwch. Mae gennym

hefyd nifer o gynlluniau a all gynnig cefnogaeth i rieni sy'n dymuno parhau gydag addysg, neu ddychwelyd i addysg. Gall rhieni mewn addysg bellach wneud cais am gymorth gyda'u costau gofal plant i'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn neu i Grant Dysgu Llywodraeth Cymru. Gall rhieni mewn addysg uwch wneud cais am Grant Gofal Plant neu'r Lwfans Dysgu i Rieni. Rydym wedi ystyried yn ofalus y cysylltiadau rhwng y polisïau hyn ac rydym yn teimlo bod gwahaniaeth clir rhwng grwpiau targed gwahanol er mwyn sicrhau ein bod yn cynorthwyo cymaint o deuluoedd â phosibl.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

CAFCASS

Argymhelliad 19 (tudalen 26)

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu effaith y dyraniad cyllideb sefydlog presennol ar berfformiad parhaus CAFCASS. O ystyried y penderfyniadau a allai newid bywyd a oedd yn deillio o asesiadau cynghorwyr llys teulu (e.e. p'un a ellir mabwysiadu plentyn), gofynnwn y rhoddir sylw arbennig i effaith y gyllideb hon ar yr amser sydd ar gael i gynnal yr asesiadau hynny ac ar faich achosion cynghorwyr llys. Rydym yn gofyn am y canlynol:

- **y cynhelir Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant ar y penderfyniad cyllideb hwn a'i rannu gyda ni;**
- **y rhennir diweddariadau chwe mis ar yr asesiad o effaith y gyllideb sefydlog ar berfformiad CAFCASS gyda ni.**

Ymateb - Derbyn - dim goblygiadau ariannol

Mae Cafcass Cymru yn derbyn argymhellion y pwyllgor a bydd yn anelu at gyhoeddi Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant erbyn diwedd mis Mawrth 2018, yn dilyn ymarfer ymgynghori byr gyda rhanddeiliaid yn y system cyfiawnder teuluol. Bydd hyn yn ein galluogi i gydamseru'r Asesiad o Effaith ar Hawliau Plant a'r diweddariadau chwe misol i'r pwyllgor gyda'n hamserlen monitro'r gyllideb ar gyfer 2018-19 ymlaen.

Goblygiadau Ariannol - Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Cymunedau yn Gyntaf

Argymhelliad 20 (tudalen 27)

Rydym yn dal i bryderu bod y penderfyniad i ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben yn fwyaf tebygol o effeithio ar blant a phobl ifanc, gyda phlant a phobl ifanc anabl yn cael eu heffeithio fwyaf. Rydym yn ailadrodd ein cefnogaeth ar gyfer argymhellion 1 ac 11 o adroddiad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad, sef Cymunedau yn Gyntaf - yr hyn a ddysgwyd (Gorffennaf 2017) ac yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn eu derbyn. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu rhagor o fanylion am y canlynol:

- **sut y mae wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i nodi'r holl raglenni a ddarperir ar hyn o bryd gan Cymunedau yn Gyntaf ond y dylent gael eu darparu gan gyrff statudol eraill;**
- **sut y mae wedi addasu rhaglenni i liniaru yn erbyn canlyniadau anfwriadol o ddirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben;**
- **sut y mae gweithgarwch o'r fath wedi'i adlewyrchu yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19;**

Ymateb - Derbyn

Fel y nodwyd yn flaenorol yn ein hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chyrff Cyflenwi Arweiniol a darparwyr gwasanaethau eraill i gefnogi proses bontio a phrif ffrydio esmwyth ar gyfer gwasanaethau llwyddiannus Cymunedau yn Gyntaf a bydd y gwaith hwn yn parhau drwy'r flwyddyn bontio hon.

Yng Nghasnewydd, mae llawer o'r hen brosiectau Cymunedau yn Gyntaf yn dal i redeg yn yr ardal ond yn cael eu darparu gan ddarparwr, rhaglen neu dîm gwahanol. Dyma rai enghreifftiau:

- Y Prosiect Tackle (i ddarparu llwybrau i addysg a chyfle i bobl ifanc dan anfantais) - bellach yn cael ei ddarparu gan glwb rygbi'r Dreigiau
- Gwella lles corfforol i blant 7-11 oed - bellach yn cael ei ddarparu gan Play Development yng Nghasnewydd
- Gwella lles corfforol plant a phobl ifanc 12-17 oed - bellach yn cael ei ddarparu ar y cyd gan Cymunedau yn Gyntaf a'r tîm Cymorth Lles
- Rhaglen Aspire - bellach yn cael ei darparu gan Wasanaeth Ieuenctid Casnewydd

Yn Sir Benfro, mae'r Corff Cyflawni Arweiniol (y Grŵp Cydweithredol) wedi ymgysylltu'n agos â'r Bwrdd Iechyd i ymgorffori'r rhaglen waith Cymunedau yn Gyntaf ac ymdrin â bwyta'n iach i ddarparu gwasanaethau'r Bwrdd ac mae diddordeb mewn cefnogi'r Clwb Cinio a'r gymuned caffi (gweithgaredd Cymunedau yn Gyntaf). Mae'r feddygfa leol bellach wedi arwain y gwaith o hwyluso'r grŵp gweithredu (a gynhaliwyd yn flaenorol Cymunedau yn Gyntaf) a fforwm ar gefnogi pobl ag anghenion ychwanegol i fyw yn y gymuned.

Yn ogystal, mae'r Tîm Trawsnewid Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn cydweithio'n agos â chydweithwyr mewnol i ystyried yr effaith ar raglenni a ffrydiau cyflawni eraill Llywodraeth Cymru.

Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2018-19 yn adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet bryd hynny pan gyhoeddodd ei fwriad i ddileu Cymunedau yn Gyntaf yn raddol. Mae hyn yn cynnwys y Gronfa Etifeddiaeth £6 miliwn i helpu awdurdodau lleol i gadw'r agweddau mwyaf llwyddiannus ar Cymunedau yn Gyntaf, y grant cyflogadwyedd gwerth £12 miliwn (a elwir bellach yn Cymunedau am Waith a Mwy) a'r £4 miliwn y flwyddyn ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedau sy'n rhoi blaenoriaeth i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

- **sut y bydd yr arbedion 'effeithlonrwydd' gwerth £13 miliwn yn deillio o gyfuno grantiau yn cael eu defnyddio, yn enwedig pa gyfran - os o gwbl - o'r arbediad hwnnw fydd yn cael ei dyrannu ar gyfer gwasanaethau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc.**

  Ymateb - Gwrthod

  Mae angen yr arbedion fel rhan o gyfraniad y portffolio Cymunedau a Phlant blaenorol at y gostyngiad cyffredinol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru o ganlyniad i bolisïau cyni Llywodraeth y DU. Yn flaenorol, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi amcangyfrif y gellir cyflawni 10% o arbedion wrth ddad-neilltuo. Mae £13 miliwn yn adlewyrchu arbedion o 5% y dylid eu cyflawni drwy gyfuno a lleihau biwrocratiaeth a dyblygu. Mae'r hyblygrwydd ariannu newydd a'r arbedion effeithlonrwydd sy'n deillio o symud i un grant wedi'u cynllunio i ganiatáu i gynghorau flaenoriaethu gwasanaethau sy'n cefnogi plant yn uniongyrchol.

Goblygiadau Ariannol - Dim.

Tlodi Plant

Argymhelliad 21 (tudalen 28)

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu:

- **faint o'i chyllid sy'n cael ei gyfeirio at drechu tlodi plant;**
- **beth yw'r canlyniadau dymunol ar gyfer cyllid o'r fath;**
- **sut y mae'n paratoi ar gyfer effaith Credyd Cyffredinol, yn enwedig mewn perthynas â'r effaith ar blant a phobl ifanc.**

Ymateb - Derbyn

Mae camau i drechu tlodi yn gyfrifoldeb ar y cyd i bob Ysgrifennydd Cabinet a phob Gweinidog. Mae cyllid sylweddol ar draws y llywodraeth yn cael ei ddefnyddio i gymryd camau a fydd yn ein helpu i gyflawni ein hamcanion tlodi plant.

Mae Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru yn nodi pum amcan strategol ar gyfer trechu tlodi plant yng Nghymru. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar:

- Leihau nifer y plant sy'n byw mewn aelwydydd heb waith
- Cynyddu sgiliau rhieni a phobl ifanc i'w galluogi i sicrhau cyflogaeth â chyflog da
- Lleihau'r anghydraddoldebau o ran canlyniadau addysg, iechyd ac economaidd plant a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi
- Defnyddio'r holl ysgogiadau sydd ar gael i greu economi a marchnad lafur gadarn sy'n cefnogi'r agenda trechu tlodi a lleihau tlodi mewn gwaith yng Nghymru.
- Cefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi i gynyddu incwm eu haelwyd drwy gyngor ar ddyledion a chyngor ariannol, gweithredu i fynd i'r afael â'r "premiwm tlodi" a gweithredu i liniaru effeithiau diwygio lles.

Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar yr hyn y mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym ynglŷn â ble y gallwn gael yr effaith fwyaf, o ran gwella canlyniadau ar gyfer teuluoedd incwm isel a chyflawni ffyniant i bawb. Maent hefyd yn adlewyrchu'r ysgogiadau polisi sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

Mae ein Strategaeth Tlodi Plant hefyd yn nodi pum maes blaenoriaeth allweddol lle y gallwn wneud mwy gyda'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i wella canlyniadau ar gyfer aelwydydd incwm isel nawr. Ar hyn o bryd mae cyllid yn cael ei ddarparu ar draws portffolios ym meysydd gofal plant, tai ac adfywio, lliniaru effeithiau diwygio lles, tlodi mewn gwaith a thlodi bwyd.
Mae Llywodraeth Cymru yn dal yn bryderus iawn ynghylch effaith cyflwyno'r Credyd Cynhwysol ar unigolion a theuluoedd ledled Cymru. Mae'r Gweinidog Tai ac Adfywio wedi galw droeon ar Lywodraeth y DU i roi'r gorau i gyflwyno'r Credyd Cynhwysol a chywiro'r diffygion sylfaenol yn y system.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i ariannu gwasanaethau rheng flaen ledled Cymru sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i bobl ar eu hawliau ariannol, dyledion, materion sy'n ymwneud â thai, ac ati. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu cyllid grant Cymorth Cynhwysol i bob Awdurdod Lleol ledled y DU i helpu i

gynorthwyo hawlwyr newydd i bontio i Gredyd Cynhwysol gyda mynediad i gymorth cyllidebu digidol a phersonol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, Awdurdodau Lleol a rhwydweithiau cymorth cynghori i wneud y mwyaf o effeithiolrwydd y gefnogaeth hon a sicrhau ei bod yn targedu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi cymorth ychwanegol o £1 miliwn i'r Gronfa Cymorth Dewisol i helpu pobl sydd angen cymorth brys.

Er mwyn diwallu'r galw a ragwelir yn y dyfodol am fynediad i wasanaethau cyngor a chymorth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol (o bob sector) gan sicrhau bod cyllido a chyflwyno gwasanaethau cyngor a chymorth yn y dyfodol yn seiliedig ar gynllunio cydlynol a chydweithredol i leihau dyblygu yn y broses, symleiddio'r pwynt mynediad i ddefnyddwyr a chynyddu allbwn y gwasanaethau a ddarperir. Bydd meini prawf cyllido Llywodraeth Cymru yn rhoi pwyslais ar gyllido gwasanaethau lle mae'r model cyflawni yn galluogi darparwyr i:

- dargedu pobl â'r 'angen mwyaf' - bydd ymyriadau cynnar yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd mân broblemau yn arwain at argyfwng. Mae hwn yn ymateb pwysig a fydd yn gallu rheoli'r twf mewn materion yn ymwneud â Chredyd Cynhwysol yn well pan fydd y broses drosglwyddo wedi'i rheoli yn dechrau yn 2019.

- cynnig cyngor (datrys problemau) a chymorth (meithrin gallu) i aelwydydd fel pecyn integredig. Bydd y dull hwn yn datblygu gwydnwch aelwydydd, cyn belled ag y bo'n ymarferol, i atal problemau tebyg rhag codi yn y dyfodol.

Goblygiadau Ariannol - Dim.